Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn 2017

Ebrill 2017

Annwyl gyfaill,

Rydym yn ysgrifennu atoch i'ch hysbysu am sesiwn galw draw a gynhelir yn Theatr Ysgol Uwchradd Bodedern, **ddydd Mawrth 23 Mai o 16.30 – 19.00**, i drafod Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn sy'n dod i Fodedern rhwng 4 – 12 Awst.

Bwriad y sesiwn anffurfiol yw rhoi cyfle i drigolion lleol drafod y paratoadau gyda staff a swyddogion y Pwyllgor Gwaith, gan gynnwys y Maes cyn ac yn ystod yr wythnos, lleoliad y meysydd parcio a'r sustem drafnidiaeth ac unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud gyda chyrraedd y Maes.

Y sesiwn galw draw yw'r cyfle i ddod atom am sgwrs i weld beth yn union yw'r Eisteddfod, beth yw'r trefniadau'n lleol, a sut y gallwn gydweithio dros yr wythnosau nesaf.

Yn ogystal, bydd gwybodaeth ar gael am yr wythnos ei hun, gan gynnwys y gweithgareddau'n ystod y dydd a'r cyngherddau gyda'r nos. Byddwn hefyd yn hyrwyddo ein cynllun gwirfoddoli, sy'n cynnwys cyfleoedd cyn, yn ystod ac ar ôl yr ŵyl.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau yn y cyfamser, ewch i'n gwefan, www.eisteddfod.cymru neu gallwch ein ffonio ar 0845 4090 900 neu anfon e-bost at gwyb@eisteddfod.org.uk.

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu mewn unrhyw ffordd tuag at lwyddiant yr ŵyl, ac edrychwn ymlaen i'ch gweld ar y 23 Mai neu ar y Maes yn ystod wythnos yr Eisteddfod.

Yn gywir iawn,

Elfed Roberts
Prif Weithredwr, Eisteddfod Genedlaethol Cymru